# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 25 Tachwedd 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3489

# (301)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 10 a 12 i 15. Ni ofynnwyd cwestiwn 11. Cafodd cwestiynau 4 ac 8 eu grwpio. Atebwyd cwestiwn 7 a 13 gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Gwahoddodd y Dirprwy Lywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd y 4 cwestiwn.

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 4 Cynnig i ddirymu Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2015

Dechreuodd yr eitem am 14.27

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NNDM5872 Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2:

Yn cytuno bod Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2015, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 12 Hydref 2015, yn cael ei ddirymu.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig. Felly, gwrthodwyd y cynnig.**

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 14.46

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig a'r Gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5888 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at y ffaith bod lefelau sbwriel, cŵn yn baeddu, tipio anghyfreithlon a graffiti yn parhau i fod yn bla ar lawer o gymunedau lleol ledled Cymru;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i edrych ar gynyddu cosbau ar gyfer troseddau amgylcheddol; a

3. Yn cydnabod y rôl y gall ailgylchu ei chwarae yn y broses o leihau gwastraff a sicrhau cymunedau glanach ledled Cymru ac yn annog Llywodraeth Cymru i edrych ar atebion arloesol i hybu ailgylchu ymhellach.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 15 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 6 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.56

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig a'r Gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5890 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r angen i gryfhau perfformiad economi gogledd Cymru;

2. Yn cydnabod yr angen i ddatblygu gogledd Cymru fel pwerdy economaidd ochr yn ochr â phwerdy gogledd Lloegr a gan gydweithio gydag ef er mwyn hyrwyddo gweithgarwch economaidd trawsffiniol;

3. Yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddiad seilwaith i hyrwyddo'r economi, yn galw am raglen barhaus o welliannau i goridor yr A55 ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i gefnogi trydaneiddio rheilffordd arfordir gogledd Cymru; a

4. Yn credu bod yn rhaid i fasnachfraint ddatganoledig nesaf Cymru barhau i gynnwys llwybrau i ogledd-orllewin Lloegr.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 11 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 7 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.49

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig a'r Gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5889 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cytundeb byd-eang ar gytuniad newid hinsawdd yng Nghynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer 2015 ym Mharis, i

sicrhau bod yr amcan y cytunwyd arno yn rhyngwladol o gyfyngu ar gyfartaledd y cynnydd mewn tymheredd byd-eang i lai na dwy radd Celsius yn aros o fewn cyrraedd;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain gydag uchelgais drwy osod targed ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) ar gyfer gostyngiad o 100 y cant mewn nwyon tŷ gwydr erbyn 2050.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 0 | 47 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 11 | 15 | 52 |

**Derbyniwyd Gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd ei thargedau newid hinsawdd ar gyfer 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn Gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflymu ei gwaith cynllunio economi carbon isel ar gyfer Cymru, i ddarparu swyddi gwyrdd ar gyfer y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd Gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd monitro allyriadau carbon blynyddol.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd Gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r rôl y gall ôl-osod eiddo hŷn ei chwarae o ran bodloni'r targedau lleihau allyriadau carbon.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd Gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau rheoliadau adeiladu a uwchraddio ei rhaglen ôl-osod yn sylweddol er mwyn torri allyriadau, helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chreu swyddi.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd Gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5889 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cytundeb byd-eang ar gytuniad newid hinsawdd yng Nghynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer 2015 ym Mharis, i sicrhau bod yr amcan y cytunwyd arno yn rhyngwladol o gyfyngu ar gyfartaledd y cynnydd mewn tymheredd byd-eang i lai na dwy radd Celsius yn aros o fewn cyrraedd.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflymu ei gwaith cynllunio economi carbon isel ar gyfer Cymru, i ddarparu swyddi gwyrdd ar gyfer y dyfodol.

3. Yn cydnabod pwysigrwydd monitro allyriadau carbon blynyddol.

4. Yn nodi'r rôl y gall ôl-osod eiddo hŷn ei chwarae o ran bodloni'r targedau lleihau allyriadau carbon.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau rheoliadau adeiladu a uwchraddio ei rhaglen ôl-osod yn sylweddol er mwyn torri allyriadau, helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chreu swyddi.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd y Cynnig wedi'i ddiwygio**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.40

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.45

**NDM5887 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Pentecostiaeth yng Nghymru: Pam ddylai Cymru wneud mwy i ddathlu ei threftadaeth gyfoethog Pentecostaidd.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.06

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2015**